

DYDD IAU, 28 HYDREF 2021

AT: HOLL AELODAU'R PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, AM 10.30 YB, DYDD GWENER, 5ED TACHWEDD, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

[NODER: OHERWYDD RHEOLIADAU CADW PELLTER CYMDEITHASOL, GALL UCHAFSWM O 6 UNIGOLYN MYNYCHU'R ORIEL GYHOEDDUS. GOFYNNIR I AELODAU O'R CYHOEDD SY'N DYMUNO BOD YN BRESENNOL YN BERSONOL GYSYLLTU Â'R SWYDDOG GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A RESTRIR ISOD, HEB FOD YN HWYRACH NA 10.00 Y.B. AR DDYDD MERCHER, 3 TACHWEDD 2021 I GADW SEDD]

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	Martin S. Davies
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224059
E-bost:	MSDavies@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
14 AELOD

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - 3 AELOD

- | | | | |
|----|------------|--------------|---------------|
| 1. | CYNGHORYDD | KEN HOWELL | (Plaid Cymru) |
| 2. | CYNGHORYDD | JOHN PROSSER | (Llafur) |
| 3. | CYNGHORYDD | JIM JONES | (Annibynnol) |

CYNGOR SIR CEREDIGION - 3 AELOD

- | | | | | |
|----|------------|------------------|----------------------|-------------|
| 1. | CYNGHORYDD | LLOYD EDWARDS | (Democratiaid Cymru) | Rhyddfrydol |
| 2. | CYNGHORYDD | KEITH EVANS | (Annibynnol) | |
| 3. | CYNGHORYDD | ALUN LLOYD JONES | (Plaid Cymru) | |

CYNGOR SIR PENFRO - 3 AELOD

- | | | | |
|----|------------|----------------|-----------------------------|
| 1. | CYNGHORYDD | MICHAEL JAMES | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | STEPHEN JOSEPH | (Annibynnol heb gysylltiad) |
| 3. | CYNGHORYDD | ROBERT SUMMONS | (Ceidwadwyr) |

CYNGOR SIR POWYS - 3 AELOD

- | | | | |
|----|------------|----------------|----------------------------------|
| 1. | CYNGHORYDD | DAVID O. EVANS | (Annibynnol) |
| 2. | CYNGHORYDD | LES GEORGE | (Plaid Geidwadol Cymru) |
| 3. | CYNGHORYDD | WILLIAM POWELL | (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) |

AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG - 2 AELOD

1. YR ATHRO IAN ROFFE
2. MRS HELEN MARGARET THOMAS

A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL.**
2. **DATGANIADAU O FUDDIANT.**
3. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30AIN GORFFENNAF, 2021.** 5 - 10
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI).**
5. **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD**
- 5.1 **CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD HELEN THOMAS** 11 - 14

“Bydd y Comisiynydd yn ymwybodol bod Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi adroddiad ar 17 Medi yn tynnu sylw at ddull anghyson yr Heddlu o fynd i'r afael â thrais tuag at fenywod a merched, ac yn annog yr Heddlu i flaenoriaethu'r mater. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 5 argymhelliad i wella'r sefyllfa. A fyddai'r Comisiynydd yn gallu cadarnhau pa gamau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn llawn? Sut y bydd yn monitro cynnydd dros amser i sicrhau bod hyn yn parhau i gael ei weithredu yn y dyfodol?”

5.2 **CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD LES GEORGE** 15 - 20

“Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd AHGTAEM adroddiad a oedd yn asesu'r cynnydd a wnaed gan heddluoedd yn genedlaethol o ran gweithredu'r argymhellion o'i adroddiad yn 2019 ar ymateb yr Heddlu i dwyll. Mae'r adroddiad newydd hwn yn nodi nad yw'r holl argymhellion gwreiddiol wedi'u gweithredu ac nad oes digon wedi newid. Gan hynny, mae'r adroddiad newydd hwn yn gwneud tri argymhelliad pellach. Mae dau ohonynt wedi'u cyfeirio'n benodol at Brif Gwnstabiliaid. Dylid fod wedi cydymffurfio â'r ddau argymhelliad erbyn y cyfarfod hwn. A all y Comisiynydd gadarnhau bod DyfedPowys wedi cydymffurfio'n llwyr â'r holl argymhellion yn y ddau adroddiad sy'n berthnasol iddo? Sut mae'r Comisiynydd wedi bodloni ei hun mai dyma'r sefyllfa? Sut fydd y Comisiynydd yn parhau i fonitro cynnydd gan yr heddlu yn hyn o beth er mwyn sicrhau nad yw'n ffaelu'r dioddefwyr twyll yn y dyfodol?”

6. **CWESTIWN Â RHYBUDD I'R PANEL GAN MR. R. HUISH** 21 - 22

“Gomisiynydd, rydych yn ymwybodol o'r holl honiadau o dwyll ac arferion llwgr a wnaed yn erbyn nifer o fanciau'r Stryd Fawr sy'n deillio o arferion bancio yn y gorffennol. O safbwynt y dioddefwyr, nid yw'n ymddangos bod Heddlu Dyfed-Powys yn barod i ymchwilio i honiadau o'r fath neu nad oes ganddo'r adnoddau i wneud hynny'n ddigonol. A yw'r Comisiynydd yn cytuno ei bod yn bwysig bod gan y rheiny sydd wedi dioddef troseddau o'r fath ffydd yng ngallu'r heddlu i ymchwilio'n drylwyr i'w cwynion? O ystyried cyfrifoldeb y Comisiynydd i gefnogi dioddefwyr a dwyn pobl gerbron y

Ilysoedd, a fydd e'n cefnogi ceisiadau'r rheiny sydd wedi dioddef twyll o'r fath yn ardal Dyfed-Powys am ddefnyddio Heddlu allanol sydd â mwy o brofiad o ymdrin ag achosion o'r fath i ymchwilio i'r cwynion hyn? Os nad yw'n cytuno ynghylch defnyddio Heddlu allanol, sut y bydd yn cefnogi'r dioddefwyr hyn?"

- | | |
|---|----------------|
| 7. CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU. | 23 - 54 |
| 8. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD. | 55 - 62 |
| 9. TREFNIADAU ARIANNU GRANT Y COMISIYNYDD. | 63 - 72 |
| 10. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD. | 73 - 98 |